



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 1494 (Cy. 166)

2015 No. 1494 (W. 166)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

SOCIAL CARE, WALES

Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Anghydfodau ynghylch Preswylfa
Arferol, etc.) (Cymru) 2015

The Care and Support (Disputes
about Ordinary Residence, etc.)
(Wales) Regulations 2015

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae adran 195 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) yn darparu ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynghylch ble y mae person yn preswyl fel arfer yng Nghymru at ddibenion Deddf 2014 ac ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau rhwng awdurdod anfon ac awdurdod derbyn o dan adran 56 o Ddeddf 2014 (hygludedd gofal a chymorth) ynghylch cymhwyso'r adran honno mewn perthynas â pherson.

Section 195 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (“the 2014 Act”) provides for the determination of disputes between local authorities about where a person is ordinarily resident in Wales for the purposes of the 2014 Act and for the determination of disputes between a sending and receiving authority under section 56 of the 2014 Act (portability of care and support) about the application of that section in relation to a person.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch datrys anghydfodau o'r fath ac yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan fydd anghydfodau'n codi.

These Regulations make further provision about the resolution of such disputes and set out the procedures to be followed when disputes arise.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys hefyd i anghydfod rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch ble yr oedd person yn preswyl fel arfer at ddibenion adran 117(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal). Mae adran 117(4) o'r Ddeddf honno yn darparu bod adran 195 o Ddeddf 2014 yn gymwys i anghydfod o'r fath fel y mae'n gymwys i anghydfod ynghylch ble'r oedd person yn preswyl fel arfer at ddibenion Deddf 2014.

These Regulations will also apply to a dispute between local authorities in Wales about where a person was ordinarily resident for the purposes of section 117(3) of the Mental Health Act 1983 (after care). Section 117(4) of that Act provides that section 195 of the 2014 Act applies to such a dispute as it applies to a dispute about where a person was ordinarily resident for the purposes of the 2014 Act.

Mae rheoliad 2 yn nodi pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion unigolyn hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys.

Regulation 2 sets out which local authority is responsible for meeting an individual's needs until the dispute is resolved.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer y camau sydd i'w cymryd gan awdurdodau lleol i geisio datrys yr anghydfod cyn ei atgyfeirio i Weinidogion Cymru ddyfarnu arno o dan adran 195 o'r Ddeddf.

Regulation 3 provides for the steps to be taken by local authorities to try to resolve the dispute prior to referring it for determination by the Welsh Ministers under section 195 of the Act.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r ddogfennaeth sydd i'w darparu gan awdurdodau lleol wrth wneud atgyfeiriad.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn nodi fersiynau o'r darpariaethau hyn sydd wedi eu haddasu ychydig ar gyfer achosion penodol sy'n codi o dan adran 189 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer adolygu dyfarniadau. Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer addalu rhwng awdurdodau lleol os effaith dyfarniad diwygiedig yn dilyn adolygiad yw nad oedd symiau a dalwyd o dan ddyfarniad blaenorol yn ddyledus.

Regulation 4 sets out the documentation that is to be supplied by local authorities when making a referral.

Regulations 5 and 6 set out slightly modified versions of these provisions for specific cases arising under section 189 of the Act.

Regulation 7 provides for the review of determinations. Regulation 8 provides for reimbursement between local authorities when the effect of a revised determination following a review is that sums paid under a previous determination were not owed.

2015 Rhif 1494 (Cy. 166)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

**Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Anghydfodau ynghylch Preswylfa
Arferol, etc.) (Cymru) 2015**

Gwnaed 7 Gorffennaf 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 10 Gorffennaf 2015

Yn dod i rym 6 Ebrill 2016

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 195(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau a gilyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “anghydfod” (“*dispute*”) yw anghydfod—

- (a) rhwng awdurdodau lleol ynghylch ble y mae person yn preswyllo fel arfer yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf,
- (b) rhwng awdurdod lleol anfon ac awdurdod lleol derbyn o dan adran 56 o'r Ddeddf (hygludedd gofal a chymorth) ynghylch cymhwyso'r adran honno, neu
- (c) rhwng awdurdodau lleol ynghylch cymhwyso adran 189 o'r Ddeddf (methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol);

(1) 2014 dccc 4.

2015 No. 1494 (W. 166)

SOCIAL CARE, WALES

**The Care and Support (Disputes
about Ordinary Residence, etc.)
(Wales) Regulations 2015**

Made 7 July 2015

*Laid before the National Assembly for
Wales* 10 July 2015

Coming into force 6 April 2016

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by section 195(2) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (1), make the following Regulations:

Title, commencement, application and interpretation

1.—(1) The title of these Regulations is The Care and Support (Disputes about Ordinary Residence, etc.) (Wales) Regulations 2015.

(2) These Regulations come into force on 6 April 2016 and apply to Wales.

(3) In these Regulations—

“the Act” (“*Ddeddf*”) means the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;

“the appropriate person” (“*y person priodol*”) means the person by whom a dispute is to be determined pursuant to section 195(1) of the Act;

“dispute” (“*anghydfod*”) means a dispute—

- (a) between local authorities about where a person is ordinarily resident in Wales for the purposes of the Act,
- (b) between a sending and receiving local authority under section 56 of the Act (portability of care and support) about the application of that section, or

(1) 2014 anaw 4

ystyr “yr awdurdod arweiniol” (“*the lead authority*”), mewn perthynas ag anghydfod, yw’r awdurdod lleol sydd (o ganlyniad i reoliad 2 neu fel arall)—

- (a) yn diwallu anghenion y person y mae’r anghydfod yn ymwneud ag ef, neu ofalwr dros y person hwnnw, ar y dyddiad y mae’r anghydfod yn codi, neu
- (b) os nad oes unrhyw awdurdod lleol yn diwallu’r anghenion hynny ar y dyddiad hwnnw, o dan ofyniad i wneud hynny gan reoliad 2(3);

ystyr “atgyfeirir” ac “yn cael ei atgyfeirio” (“*referred*”) yw atgyfeirio i gael dyfarniad arno gan y person priodol, ac mae “atgyfeirio” (“*refer*”) ac “atgyfeiriad” (“*referral*”) i’w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr “y person priodol” (“*the appropriate person*”) yw’r person y mae anghydfod i’w ddyfarnu arno ganddo yn unol ag adran 195(1) o’r Ddeddf.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y dyddiad y mae anghydfod yn codi yn gyfeiriadau at y dyddiad cyntaf yr anfonir cyfathrebiad ysgrifenedig arno gan un o’r awdurdodau lleol (“yr awdurdod cyntaf”) at un arall o’r awdurdodau lleol (“yr ail awdurdod”) sydd (yn ôl y digwydd)—

- (a) yn honni nad yw’r person y mae’r anghydfod yn ymwneud ag ef, ym marn yr awdurdod cyntaf, yn preswyllo fel arfer yn ei ardal at ddibenion y Ddeddf, neu fod y person yn preswyllo fel arfer yn ardal yr ail awdurdod at y dibenion hynny,
- (b) yn codi mater ynghylch cymhwyso adran 56 o’r Ddeddf, neu
- (c) yn codi mater ynghylch cymhwyso adran 189 o’r Ddeddf.

(5) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at “yr awdurdodau” yn gyfeiriad at yr awdurdodau sy’n bartïon i anghydfod ac mae’n cynnwys (pan fo’n wahanol) gyfeiriad at yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â’r anghydfod hwnnw.

Cyfrifoldeb am ddiwallu anghenion tra bo anghydfod heb ei ddatrys

2.—(1) Ni chaiff yr awdurdodau ganiatáu i fodolaeth yr anghydfod atal diwallu, oedi cyn diwallu, ymyrryd â diwallu, neu effeithio’n andwyol fel arall ar ddiwallu, anghenion y person y mae’r anghydfod yn ymwneud ag ef neu anghenion gofalwr y person hwnnw.

- (c) between local authorities about the application of section 189 of the Act (provider failure: temporary duty on local authority);

“the lead authority” (“*yr awdurdod arweiniol*”) means, in relation to a dispute, the local authority which (as a result of regulation 2 or otherwise)—

- (a) is meeting the needs of the person to whom the dispute relates, or a carer of that person, as at the date on which the dispute arises, or
- (b) if no local authority is meeting those needs at that date, is required to do so by regulation 2(3);

“referred” (“*atgyfeirir*”, *yn cael ei atgyfeirio*”) means referred for determination by the appropriate person, and “refer” (“*atgyfeirio*”) and “referral” (“*atgyfeiriad*”) are to be construed accordingly.

(4) References in these Regulations to the date on which a dispute arises are references to the first date on which a written communication is sent by one of the local authorities (“the first authority”) to another of the local authorities (“the second authority”) which (as the case may be)—

- (a) asserts that, in the first authority’s view, the person to whom the dispute relates is not ordinarily resident in its area for the purposes of the Act, or that the person is ordinarily resident in the second authority’s area for those purposes,
- (b) raises an issue about the application of section 56 of the Act, or
- (c) raises an issue about the application of section 189 of the Act.

(5) In these Regulations, a reference to “the authorities” is a reference to the authorities who are parties to a dispute and includes (where different) a reference to the lead authority in relation to that dispute.

Responsibility for meeting needs whilst dispute is unresolved

2.—(1) The authorities must not allow the existence of the dispute to prevent, delay, interrupt or otherwise adversely affect the meeting of the needs of the person to whom the dispute relates or a carer of that person.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion y person neu'r gofalwr ar y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi barhau i ddiwallu'r anghenion hynny hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys.

(3) Os nad oes unrhyw awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion ar y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi—

- (a) rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef yn byw yn ei ardal, neu
- (b) os nad yw'r person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef yn byw yn ardal unrhyw awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r person hwnnw'n bresennol yn ei ardal

gyflawni, hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys, y dyletswyddau o dan y Ddeddf mewn cysylltiad â'r person ac unrhyw ofalwr y person hwnnw fel petai'r person yn preswyllo fel arfer yn ei ardal.

(4) Os yw'r ddyletswydd o dan baragraff (3) i'w chyflawni gan awdurdod lleol ("A") nad yw'n un o'r awdurdodau sydd eisoes yn barti i'r anghydfod, rhaid i'r awdurdodau hynny, yn ddi-oed, dynnu sylw A at—

- (a) dyletswydd A o dan y paragraff hwnnw, a
- (b) statws A fel yr awdurdod arweiniol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Nid yw A o dan y dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn tan y dyddiad y daw'n ymwybodol, neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo fod wedi bod yn ymwybodol, o'i statws fel yr awdurdod arweiniol.

(6) Pan fo'r anghydfod yn ymwneud â chymhwyso adran 56 (hygludedd gofal a chymorth), rhaid i'r awdurdodau gyflawni'r dyletswyddau o dan yr adran honno er gwaethaf bodolaeth yr anghydfod.

Y camau sydd i'w cymryd cyn atgyfeirio anghydfod

3.—(1) Rhaid i'r awdurdodau, cyn atgyfeirio'r anghydfod, gymryd y camau a bennir yn y rheoliad hwn.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi—

- (a) rhaid i'r awdurdod arweiniol geisio canfod yr holl awdurdodau eraill sydd â rhan yn yr anghydfod a chydgyssylltu trafodaethau rhwng yr awdurdodau hynny mewn ymgais i ddatrys yr anghydfod, a
- (b) rhaid i bob un o'r awdurdodau enwebu unigolyn a fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt o fewn yr awdurdod hwnnw mewn perthynas â'r anghydfod, a rhoi manylion cyswllt yr unigolyn hwnnw i'r awdurdodau eraill.

(2) The local authority which is meeting the needs of the person or carer on the date on which the dispute arises must continue to meet those needs until the dispute is resolved.

(3) If no local authority is meeting the needs on the date on which the dispute arises—

- (a) the local authority in whose area the person to whom the dispute relates is living, or
- (b) if the person to whom the dispute relates is not living in the area of any local authority, the local authority in whose area that person is present

must, until the dispute is resolved, perform the duties under the Act in respect of the person and any carer of that person as if the person was ordinarily resident in its area.

(4) If the duty under paragraph (3) falls to be discharged by a local authority ("A") which is not one of the authorities already a party to the dispute, those authorities must, without delay, bring to A's attention—

- (a) A's duty under that paragraph, and
- (b) A's status as the lead authority for the purposes of these Regulations.

(5) A is not under the duties in these Regulations until the date on which it is aware of, or could reasonably be expected to have been aware of, its status as the lead authority.

(6) Where the dispute is about the application of section 56 (portability of care and support), the authorities must perform the duties under that section notwithstanding the existence of the dispute.

Steps to be taken prior to referral of a dispute

3.—(1) The authorities must, prior to the referral of the dispute, take the steps specified in this regulation.

(2) As soon as reasonably practicable after the date on which the dispute arises—

- (a) the lead authority must seek to identify all the other authorities concerned in the dispute and co-ordinate discussions between those authorities in an attempt to resolve the dispute, and
- (b) each of the authorities must nominate an individual who will act as the point of contact within that authority in relation to the dispute, and provide the other authorities with the contact details of that individual.

(3) Rhaid i'r awdurdod arweiniol—

- (a) cydgysylltu'r modd y mae'r awdurdodau yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y rheoliad hwn,
- (b) cymryd camau i sicrhau oddi wrth yr awdurdodau eraill wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod,
- (c) datgelu'r wybodaeth honno i unrhyw awdurdod arall, a
- (d) datgelu i'r awdurdodau eraill unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod arweiniol ei hun yn ei dal ac a allai helpu i ddatrys yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau—

- (a) cymryd pob cam rhesymol i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a
- (b) cydweithredu â'i gilydd wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y rheoliad hwn.

(5) Rhaid i bob un o'r awdurdodau—

- (a) cynnal deialog adeiladol gyda'r awdurdodau eraill, gyda golwg ar beri i'r anghydfod gael ei ddatrys yn gyflym,
- (b) cydymffurfio, yn ddi-oed, ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth berthnasol a wneir gan yr awdurdod arweiniol, ac
- (c) hysbysu'r awdurdodau eraill yn rheolaidd am unrhyw ddatblygiadau y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(6) Rhaid i'r awdurdod arweiniol ddarparu i'r personau y mae paragraff (7) yn gymwys iddynt unrhyw wybodaeth y mae'n ymddangos iddo ei bod yn briodol am gynnydd i ddatrys yr anghydfod.

(7) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r personau canlynol—

- (a) y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,
- (b) gofalwr y person hwnnw (os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr), ac
- (c) person sy'n cynrychioli'r person neu'r gofalwr.

(8) Os nad yw'r awdurdodau yn gallu datrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cododd yr anghydfod, rhaid i'r awdurdod arweiniol ei atgyfeirio at y person priodol.

(3) The lead authority must—

- (a) co-ordinate the discharge, by the authorities, of their duties under this regulation,
- (b) take steps to obtain from the other authorities information which may be relevant to the determination of the dispute,
- (c) disclose that information to any other authority, and
- (d) disclose to the other authorities any information the lead authority itself holds that may help to resolve the dispute.

(4) The authorities must—

- (a) take all reasonable steps to resolve the dispute between themselves, and
- (b) co-operate with each other in the discharge of their duties under this regulation.

(5) Each of the authorities must—

- (a) engage in a constructive dialogue with the other authorities, with a view to bringing about the speedy resolution of the dispute,
- (b) comply, without delay, with any reasonable request for relevant information made by the lead authority, and
- (c) keep the other authorities informed of any developments which appear to it to be relevant to the determination of the dispute.

(6) The lead authority must provide to the persons to whom paragraph (7) applies such information as appears to it to be appropriate about progress in resolving the dispute.

(7) This paragraph applies to the following persons—

- (a) the person to whom the dispute relates,
- (b) the carer of that person (if the dispute is about which authority is to meet the needs of a carer), and
- (c) a representative of the person or carer.

(8) If the authorities cannot resolve the dispute between themselves within four months of the date on which it arose, the lead authority must refer it to the appropriate person.

Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch preswylfa arferol neu hygludedd gofal a chymorth

4.—(1) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

- (a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod,
 - (b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2), ac
 - (c) copïau o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.
- (2) Yr wybodaeth benodedig yw—
- (a) esboniad o natur yr anghydfod,
 - (b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,
 - (c) y manylion am anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef (“y person perthnasol”) o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,
 - (d) os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr, y manylion am anghenion y gofalwr o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,
 - (e) datganiad ynghylch pa awdurdod sydd wedi diwallu'r anghenion hynny ers dechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, sut y cafodd yr anghenion hynny eu diwallu a'r darpariaethau statudol y cawsant eu diwallu odanynt,
 - (f) y manylion am fan preswyllo'r person perthnasol, ac am unrhyw fannau preswyllo blaenorol sy'n berthnasol i'r anghydfod,
 - (g) mewn achos pan fo galluedd y person perthnasol i benderfynu ble i fyw yn berthnasol i'r anghydfod, naill ai—
 - (i) datganiad bod yr awdurdodau'n cytuno bod gan, neu nad oes gan, y person alluedd o'r fath, neu
 - (ii) gwybodaeth y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r cwestiwn ynghylch a oes gan, neu a nad oes gan, y person alluedd o'r fath,
 - (h) datganiad ynghylch unrhyw gamau eraill a gymerwyd gan yr awdurdodau mewn perthynas â'r person perthnasol neu ei ofalwr, ac a all fod yn berthnasol i'r anghydfod,
 - (i) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a

Referral: disputes about ordinary residence or portability of care and support

4.—(1) The referral must include the following documents—

- (a) a letter signed by the lead authority in relation to the dispute,
 - (b) a statement of facts signed on behalf of each of the authorities which includes the information specified in paragraph (2), and
 - (c) copies of all correspondence between the authorities which relates to the dispute.
- (2) The specified information is—
- (a) an explanation of the nature of the dispute,
 - (b) a chronology of the events leading up to the referral of the dispute, including the date on which the dispute arose,
 - (c) details of the needs of the person to whom the dispute relates (“the relevant person”) from the beginning of the period to which the dispute relates,
 - (d) if the dispute is about which authority is to meet the needs of a carer, details of the needs of the carer from the beginning of the period to which the dispute relates,
 - (e) a statement as to which authority has met those needs since the beginning of the period to which the dispute relates, how those needs have been met and the statutory provisions under which they have been met,
 - (f) details of the relevant person's place of residence, and of any former places of residence which are relevant to the dispute,
 - (g) in a case where the relevant person's capacity to decide where to live is relevant to the dispute, either—
 - (i) a statement that the authorities agree that the person has, or lacks, such capacity, or
 - (ii) information which appears to any of the authorities to be relevant to the question of whether the person has, or lacks, such capacity,
 - (h) a statement as to any other steps taken by the authorities in relation to the relevant person or carer of that person, and which may be relevant to the dispute,
 - (i) details of the steps that the authorities have taken to resolve the dispute between themselves, and

- (j) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(3) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

(4) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

- (a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a
- (b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(5) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir cais hwn iddo gydymffurfio ag ef yn ddi-oed.

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i achos y mae rheoliad 5 neu 6 yn gymwys iddo.

Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch cydweithredu o dan adran 189 (methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol)

5.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i anghydfod sy'n ymwneud yn unig â chymhwyso adran 189(7)(a) neu (b) o'r Ddeddf (dyletswydd i gydweithredu).

(2) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

- (a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod, yn datgan bod yr anghydfod yn cael ei atgyfeirio,
- (b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (3), ac
- (c) copïau o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.

(3) Yr wybodaeth benodedig yw—

- (a) esboniad o natur yr anghydfod,
- (b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,
- (c) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a
- (d) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

- (j) any other information which appears to any of the authorities to be relevant to the determination of the dispute.

(3) The authorities must submit any legal arguments they rely on in relation to the dispute within 14 days of the date on which the dispute is referred.

(4) If an authority submits legal arguments, it must—

- (a) send a copy of those arguments to the other authorities, and
- (b) provide evidence to the appropriate person that it has done so.

(5) If the appropriate person asks any of the authorities to provide further information, the local authority to which this request is made must comply without delay.

(6) This regulation does not apply to a case to which regulation 5 or 6 applies.

Referral: disputes about co-operation under section 189 (provider failure: temporary duty on local authority)

5.—(1) This regulation applies to a dispute which is solely about the application of section 189(7)(a) or (b) of the Act (duty to co-operate).

(2) The referral must include the following documents—

- (a) a letter signed by the lead authority in relation to the dispute, stating that the dispute is being referred,
- (b) a statement of facts signed on behalf of each of the authorities which includes the information specified in paragraph (3), and
- (c) copies of all correspondence between the authorities which relates to the dispute.

(3) The specified information is—

- (a) an explanation of the nature of the dispute,
- (b) a chronology of the events leading up to the referral of the dispute, including the date on which the dispute arose,
- (c) details of the steps that the authorities have taken to resolve the dispute between themselves, and
- (d) any other information which appears to any of the authorities to be relevant to the determination of the dispute.

(4) The authorities must submit any legal arguments they rely on in relation to the dispute within 14 days of the date on which the dispute is referred.

(5) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

- (a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a
- (b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(6) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir y cais hwn iddo gydymffurfo ag ef yn ddi-oed.

Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch costau a dynnwyd o dan adran 189 (methiant darparwr: dyletsywydd dros dro ar awdurdod lleol)

6.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i anghydfod sy'n ymwneud yn unig â chymhwyso adran 189(7)(c) o'r Ddeddf (adennill costau).

(2) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

- (a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod, yn datgan bod yr anghydfod yn cael ei atgyfeirio,
- (b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (3), ac
- (c) copiâu o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.

(3) Yr wybodaeth benodedig yw—

- (a) esboniad o natur yr anghydfod,
- (b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,
- (c) y manylion am anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef ("y person perthnasol") o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,
- (d) os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr, y manylion am anghenion y gofalwr o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,
- (e) datganiad ynghylch pa awdurdod sydd wedi diwallu'r anghenion hynny ers dechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, sut y cafodd yr anghenion hynny eu diwallu a'r darpariaethau statudol y cawsant eu diwallu odanynt,

(5) If an authority submits legal arguments it must—

- (a) send a copy of those arguments to the other authorities, and
- (b) provide evidence to the appropriate person that it has done so.

(6) If the appropriate person asks any of the authorities to provide further information, the local authority to which this request is made must comply without delay.

Referral: disputes about costs incurred under section 189 (provider failure: temporary duty on local authority)

6.—(1) This regulation applies to a dispute which is solely about the application of section 189(7)(c) of the Act (recovery of costs).

(2) The referral must include the following documents—

- (a) a letter signed by the lead authority in relation to the dispute, stating that the dispute is being referred,
- (b) a statement of facts signed on behalf of each of the authorities which includes the information specified in paragraph (3), and
- (c) copies of all correspondence between the authorities which relates to the dispute.

(3) The specified information is—

- (a) an explanation of the nature of the dispute,
- (b) a chronology of the events leading up to the referral of the dispute, including the date on which the dispute arose,
- (c) details of the needs of the person to whom the dispute relates ("the relevant person") from the beginning of the period to which the dispute relates,
- (d) if the dispute is about which authority is to meet the needs of a carer, details of the needs of the carer from the beginning of the period to which the dispute relates,
- (e) a statement as to which authority has met those needs since the beginning of the period to which the dispute relates, how those needs have been met and the statutory provisions under which they have been met,

- (f) gwybodaeth am y costau y ceisir eu hadennill, gan gynnwys dadansoddiad o'r costau hynny,
- (g) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, ac
- (h) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

(5) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

- (a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a
- (b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(6) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir y cais hwn iddo gydymffurfio ag ef yn ddi-oed.

Adolygu dyfarniadau

7.—(1) Caiff awdurdod wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygu'r dyfarniad.

(2) Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad.

(3) Caniateir i adolygiad gael ei gynnal gan Weinidogion Cymru (p'un ai mewn ymateb i gais neu fel arall).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r dyfarniad neu roi dyfarniad gwahanol yn ei le.

Dyfarniadau a amnewidiwyd

8.—(1) Pan fo—

- (a) adolygiad o ddyfarniad wedi ei gynnal yn unol â rheoliad 7 a bod dyfarniad gwahanol wedi ei roi yn ei le,
- (b) awdurdod lleol ("A"), o ganlyniad i'r dyfarniad cyntaf, wedi talu swm i awdurdod lleol arall ("B"), ac
- (c) effaith yr ail ddyfarniad yn golygu nad oedd yn ofynnol i rywfaent neu'r cyfan o'r swm a dalwyd gan A i B gael ei dalu,

- (f) information about the costs being sought to be recovered, including a breakdown of those costs,
- (g) details of the steps that the authorities have taken to resolve the dispute between themselves, and
- (h) any other information which appears to any of the authorities to be relevant to the determination of the dispute.

(4) The authorities must submit any legal arguments they rely on in relation to the dispute within 14 days of the date on which the dispute is referred.

(5) If an authority submits legal arguments it must—

- (a) send a copy of those arguments to the other authorities, and
- (b) provide evidence to the appropriate person that it has done so.

(6) If the appropriate person asks any of the authorities to provide further information, the local authority to which this request is made must comply without delay.

Review of determinations

7.—(1) An authority may make a request to the Welsh Ministers to review the determination.

(2) Any such request must be made within three months of the date of the determination.

(3) A review may be carried out by the Welsh Ministers (whether in response to a request or otherwise).

(4) The Welsh Ministers may confirm the determination or substitute a different determination.

Substituted determinations

8.—(1) Where—

- (a) a review of a determination has been carried out in accordance with regulation 7 and a different determination substituted,
- (b) in consequence of the first determination a local authority ("A") has paid an amount to another local authority ("B"), and
- (c) the effect of the second determination is that some or all of the amount paid by A to B was not required to have been paid,

rhaid i B ad-dalu i A y swm nad oedd yn ofynnol iddo
gael ei dalu.

B must repay to A the sum that was not required to
have been paid.

Mark Drakeford

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the
Welsh Ministers

7 Gorffennaf 2015

7 July 2015

©[©]Hawlfraint y Goron 2015

© Crown copyright 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by The Stationery Office Limited
under the authority and superintendence of Carol Tullo,
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of
Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 1494 (Cy. 166)

**GOFAL CYMDEITHASOL,
CYMRU**

Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Anghydfodau ynghylch Preswylfa
Arferol, etc.) (Cymru) 2015

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 No. 1494 (W. 166)

SOCIAL CARE, WALES

The Care and Support (Disputes
about Ordinary Residence, etc.)
(Wales) Regulations 2015

£6.00

W2367/07/15

ON

ISBN 978-0-348-11126-2



9 780348 111262